Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Caeglas Ltd**

**Cartref Preswyl Caeglas**
**Heol Cennen Ffairfach**
**Llandeilo**
**SA19 6UL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Preswyl Caeglas Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Caeglas Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16/11/2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Cefnogir y rheolwr gan yr Unigolyn Cyfrifol a Chyfarwyddwr y gwasanaeth i arwain tîm staff ymroddedig. Maent yn cael eu gwerthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio ei ymweliadau rheoliad 73 ac adnoddau archwilio ansawdd er mwyn sicrhau bod ganddynt drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae iechyd a llesiant yr unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn ategu hyn. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn cynnwys ymdeimlad o'r person, fodd bynnag, mae angen i gofnodion electronig a phapur adlewyrchu manylion ei gilydd. Pobol a / neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses ofal, pan yn bosibl. Caiff y gweithwyr gofal eu hyfforddi'n dda ac maent yn meddu ar wybodaeth am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno i safon uchel a'u personoli yn unol â dewis yr unigolyn. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal ar y cyfan yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir.  Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae'r gwasanaeth yn lan ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn am farn unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Mae'r amgylchedd yn cynnig mannau cymunedol cartrefol a chyfforddus i unigolion gyfarfod â'i gilydd a chyda'u hymwelwyr.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ac yn canmol y staff; dywedwyd wrthym; *“the carers are lovely, I am well cared for, and I’ve made some friends which is great!”* a *“care staff are very good and I feel well looked after”.* Roedd perthynas yn canmol y gwasanaeth ac roedd ei sylwadau’n cynnwys,*“whilst it was difficult, I think it’s the right decision for my mother to be living in Caeglas. My mother is so much better since moving in, she has made friends, started to put weight back on and she is safe. The carers are all wonderful, really lovely*”. *I can raise any issues with the manager, and they will be addressed”.*

Mae'r gweithwyr gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod am hanes yr unigolyn a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau rhoi cymorth i'r unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym; *“I love it here, I’m here for the residents who deserve our very best!”.* Mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn modd gofalgar a pharchus, sy'n ychwanegu at awyrgylch groesawgar a hapus y gwasanaeth.

Dywedodd y bobl y siaradon ni â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng nghartref Caeglas ac yn teimlo y gallant godi pryder os byddai angen. Dywedodd un person wrthym; *“I would speak to one of the carers or [manager] if I had a concern”*. Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn y wybodaeth a roddwyd i'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr wrth iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth. Mae larymau brys yn hongian yn rhydd fel bod pobl yn gallu galw am help mewn argyfwng. Caiff clychau galw eu hateb yn amserol pan gânt eu canu.

Mae cofnodion gofal electronig a phapur yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Gwelsom fod y wybodaeth yn y cofnodion electronig yn rhoi mwy o fanylion na'r cofnodion papur. Mae angen mynd i'r afael â hyn tra bod y ddwy system yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gan weithwyr gofal fynediad at y cofnodion mwyaf diweddar ar gyfer pobl. Trafodwyd hyn â'r rheolwr, Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys manylion da ac yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Lle y bo'n bosibl, mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal er mwyn dangos eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses ofalu. Mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn ymwneud ag anghenion y bobl. Gwelsom yn ystod yr arolygiad y gall nifer o dîm y staff gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gydag amrywiaeth o ddewisiadau dyddiol wedi'u cynnwys ar fwydlenni amrywiol. Dywedodd y bobl wrthym “*The food is excellent*” a “*the choices of meals is great, lots of home cooked food*”. Caiff bwydlenni eu diweddaru'n unol â'r tymor a thrwy ymgynghori â'r bobl. Mae'r amseroedd bwyd i'w gweld yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol iawn ac yn llawn hwyl. Cyflwynir prydau bwyd yn dda, ac mae dewisiadau ar gael yn rhwydd.

## Yr Amgylchedd

Maent yn cynnal amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw i leihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae mesurau diogel a priodol ar waith er mwyn i berthnasau a ffrindiau ymweld â'r gwasanaeth. Caiff y mesurau hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus heb unrhyw beryglon. Mae gan y staff domestig y cyfarpar priodol i gwblhau eu tasgau'n ddiogel. Mae'r amgylchedd yn lân heb unrhyw arogleuon gwael.

Mae'r adeilad, y dodrefn a'r gosodiadau mewn cyflwr da iawn. Mae ystafelloedd gwely pobl wedi'u haddurno'n unigol i safon uchel. Dywedodd un person wrthym “I like the “fancy” wallpaper, it’s one of the reasons I chose this room, as well as the view”. Dywedodd person arall ei bod wedi dewis ei ystafell wely am fod iddi wedd ddwbl, yn olau iawn sy'n caniatáu iddynt barhau â'u hobi. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli â dodrefn, lluniau, ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn.

Mae'r gerddi a'r tiroedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig awyrgylch dymunol iawn i bobl eistedd a mwynhau.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n rheolaidd yn y gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ei ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Er bod y rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol, nid oes goruchwyliaeth reolaidd wedi'i dogfennu. Codwyd hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol sydd wedi rhoi sicrwydd y bydd y diffyg hwn yn cael sylw. Edrychir ar oruchwyliaeth y rheolwr yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff yn gymwys, yn wybodus ac yn cael eu cefnogi i ofalu am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth, ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr hyfforddiant roeddent wedi ei gwblhau, a gallent ddangos dealltwriaeth dda o'u rôl o ran diogelu unigolion ac arferion symud a chodi a chario diogel. Mae cofnodion y staff yn dangos eu bod yn cael sesiynau sefydlu effeithiol, sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym "*I have completed all my training", "We have a lot of training which is really important"* ac *"I have regular supervision with [manager], she is very supportive".* Roedd cofnodion recriwtio'r staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys y ddogfennaeth a'r gwiriadau gofynnol.

Mae pobl a'u perthnasau yn canmol y staff a'r rheolwr, ac mae'r sylwadau'n cynnwys *"I have no issues with the service, care or management"*, *"this is a lovely home where the residents are well looked after"*. Mae'r staff yn canmol y tîm rheoli ac yn canmol gweithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym; *"[manager, RI and Director] are great, they are all very approachable" and "I know I can speak to [manager] if I have any concerns, she cares."*

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol ac maent yn gallu egluro eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/03/2023